**<u>Testun hygyrch ar gyfer Cam 1 Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd i Gasnewydd – Ardal Canol y Ddinas, Pecyn Ymgysylltu</u>**

## Sleid 1

Teitl y cyflwyniad: "Cam 1 Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd i Gasnewydd – Ardal Canol y Ddinas"

Is-deitl: *"Pecyn Ymgysylltu"*

Dangosir logo Trafnidiaeth Esblygol Caerdydd yn yn y canol i'r dde a dangosir Logo Cyngor Caerdydd yn y canol i'r dde.

Dangosir y wybodaeth uchod ar sleidiau 1 i 11 er gyda'r logos yn llai o ran maint ar ben y sleidiau.

Dangosir delwedd ar waelod y sleid o olygfa stryd ddarluniadol yn dangos ceir, tacsis, beicwyr a cherddwyr gyda chefndir o olygfa parc.

Mae'r testun o dan y ddelwedd yn darllen: *"Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg / This form is available in English."*

## Sleid 2

Is-deitl: "Cefndir"

Mae'r testun ar hyd ochr chwith y sleid yn darllen:

*"Mae'r cyngor yn datblygu Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd i Gasnewydd ac yn ymgysylltu ar Gam 1 y coridor hwn. Mae'r cynigion yn y ddogfen hon yn rhan o lwybr ehangach Beicffordd 2 (BFf2) sy'n cael ei ddatblygu i gysylltu canol y ddinas i ddwyrain Caerdydd a thu hwnt i ffin y sir â Chasnewydd, fel y dangosir yn y cynllun isod.*

*Mae'r pecyn ymgysylltu hwn yn ystyried Cam 1 y llwybr, ardal Canol y Ddinas, gan wneud y 'feicffordd dros dro' bresennol yn barhaol.*

*Bydd y cynigion ar gyfer Cam 1 yn gwella hygyrchedd i fysiau, beiciau a cherddwyr yn yr ardal. Mae rhagor o wybodaeth am sut mae'n ffitio o fewn y llwybr ehangach i'w gweld ym <u>mhecyn gwybodaeth y llwybr ehangach</u>.*

*Mae'r cynlluniau ar gyfer gwella'r seilwaith ac ar gyfer y feicffordd barhaol newydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon.*

*Mae'r cynlluniau hyn yn lluniadau dangosol syml i ddangos y cynigion presennol yn cael eu datblygu a'r aliniad arfaethedig.*

Mae blwch testun ar ochr chwith waelod y sleid yn darllen: *"Mae gwybodaeth am Sut i Ymateb ar gael ar ddiwedd y ddogfen hon, ynghyd â Chwestiynau Cyffredin. Byddwn yn defnyddio unrhyw adborth a geir i fireinio'r cynigion i fwrw ymlaen â dyluniad manwl."*

Cyflwynir cynllun alinio llwybr sy'n dangos y gwahanol Gamau ar ochr dde'r sleid. Rhennir y llwybr yn chwe cham wedi'u labelu: *"Ardal Canol y Ddinas (Cam 1)", "2- Ardal Heol Lydan", "3- Heol Lydan i Ffordd y De", "4- Ffordd y De i Fryn Hyfryd", "5-*

*Bryn Hyfryd Rodfa'r Gypreswydden" a "6- Cyswllt â Chasnewydd a Rhodfa'r Gypreswydden".* Mae'r Allwedd yn darllen *"BFf2 / Blaenoriaeth bysiau – llinell doredig goch a llinell solet goch" a "Blaenoriaeth bysiau allan o'r ddinas – llinell doredig werdd"*. Mae'r llinellau gwyrdd a coch yn berthnasol i Gam 2 - Heol Lydan yn unig. Dangosir 'N' i gynrychioli saeth tua'r gogledd, a ddangosir ar bob cynllun.

Ar waelod pob sleid mae testun sy'n darllen*, "Mae'r lliwiau at ddibenion eglurhaol yn unig"* a lle dangosir cynlluniau mae'n darllen, *"Nid yw'r cynllun i raddfa".*

Mae testun o dan y blwch testun yn nodi "Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg / This document is available in Welsh"

## Sleid 3

Is-deitl: *"Trosolwg o'r Llwybr"*

Mae'r testun ar hyd ochr chwith y sleid yn darllen:

*"Bydd y gwelliannau yn y rhan hon o'r llwybr (Cam 1) yn cynnig llawer o fanteision, megis gwella cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, hyrwyddo teithio cynaliadwy a llesol, sy'n golygu cysylltiadau gwell â safleoedd addysg a chyflogaeth.*

*Rydym yn datblygu beicffordd barhaol yn lle'r feicffordd dros dro bresennol ar Boulevard De Nantes sy'n parhau i Heol Casnewydd. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio deunyddiau gwahanu parhaol, mannau croesi, gwella'r safleoedd bws, newidiadau i'r briffordd, ac ailddyrannu lonydd.*

*Ar hyd y llwybr, rydym yn adolygu ac yn gwella cyfleusterau i gerddwyr ac yn rhoi gwersi a ddysgwyd ar waith. Bydd blaenoriaeth bysiau i mewn ac allan o'r ddinas yn cael ei gwella, gyda safleoedd bws yn cael eu hadolygu a'u diweddaru.*

*Bydd arwyddion parcio ceir yn cael eu hadolygu fel rhan o ymarfer dynodi llwybr.*

*Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am barcio yn* Parcio (caerdydd.gov.uk)*."*

Cyflwynir cynllun sy'n dangos llwybr cam 1 a'r ddolen fysiau bresennol yn ardal canol y ddinas ar ochr dde'r sleid. Dangosir y llwybr mewn coch ar hyd Boulevard De Nantes a Heol Casnewydd gan ddechrau o Heol y Gogledd a Chastell Caerdydd a gorffen ger Ysbyty Brenhinol Caerdydd. Dangosir y ddolen fysiau mewn glas ac mae'n cylchu canol y ddinas ger CEF Carchar Caerdydd, Canolfan Dewi Sant, a'r Gyfnewidfa Fysiau. Mae'r allwedd yn darllen *"Alinio Coridor / BFf2 - llinell solet goch" a "dolen bws bresennol – llinell solet las"*.

## Sleid 4

Is-deitl: *"Trosolwg o'r Llwybr"*

Mae'r testun ar ochr chwith y sleid yn darllen: *"Rydym wedi cynnal gwaith opsiynau a modelu traffig manwl i ddatblygu'r cynnig a gyflwynir yn y pecyn ymgysylltu hwn.*

*Mae gwahanol opsiynau wedi cael eu hystyried a'u hadolygu, fel pa ochr o'r ffordd sydd orau ar gyfer y feicffordd, mathau o groesfannau i gerddwyr a dyraniadau lonydd ar gyfer bysiau a thraffig.*

*Er mwyn dadansoddi'r opsiynau, mae'r cynllun wedi cael ei asesu'n annibynnol gan ein hymgynghorwyr fel rhan o ddatblygiad y cynllun.*

*Mae hyn yn golygu bod yr opsiwn sy'n cael ei ddatblygu'n darparu gwasanaeth bysiau a theithio llesol gwell, wrth leihau effaith gyffredinol y newidiadau i ddefnyddwyr eraill hefyd."*

Dangosir darlun tri dimensiwn yng nghanol y testun ar ochr chwith y sleid sy'n dangos cyffordd Plas y Parc â'r feicffordd ar yr ochr ogleddol.

Mae'r testun ar ochr dde'r sleid yn darllen: "Mae rhan nesaf y pecyn ymgysylltu hwn yn cynnwys darnau manwl o gynnig y cynllun sy'n cynnwys nodweddion allweddol y cynllun.

O Heol y Gogledd, i Blas Dumfries a Heol Casnewydd, mae'r cam hwn o'r llwybr yn gorffen ger Heol y Pedair Llwyfen."

Dangosir darlun tri dimensiwn ychwanegol yng nghanol y testun ar ochr dde'r sleid sy'n dangos cyffordd Rhodfa'r Orsaf â'r feicffordd ar ochr ddwyreiniol Plas Dumfries sy'n cysylltu â Rhodfa'r Orsaf.

O dan y darlun ar ochr dde'r sleid, darperir testun pellach sy'n darllen: *"I helpu i ddelweddu'r newidiadau arfaethedig, rydym wedi paratoi fideo 'hedfan drosodd' 3D o'r cynllun, a gynhyrchwyd gan gyfrifiadur.*

*Gwyliwch y fideo model 3D (yn agor ar wefan allanol)*

*Sylwch fod y dyluniad a ddangosir yn y fideo hwn at ddibenion darluniadol yn unig a gall newid. Mae'r dilyniannau traffig, cerddwyr a beiciau a ddangosir hefyd yn ddangosol yn unig."*

## Sleid 5

Is-deitl: "Dylunio cysyniad - Heol y Gogledd/Boulevard De Nantes/Ffordd y Brenin"

Dangosir darn o'r cynllun dylunio cysyniad o'r adran rhwng cyffordd Heol y Gogledd, ar hyd Boulevard De Nantes i'r gyffordd â Phlas y Parc. Dangosir gwahanol labeli ar y cynllun yn disgrifio'r canlynol:

- *"Mynediad traffig newydd i Heol y Brodyr Llwydion (ar gyfer busnesau / maes parcio)" – oddi ar Heol y Gogledd ger Gerddi Tŷ'r Brodyr a Ffordd y Brenin.*
- *"Cysylltiadau â seilwaith beicio arfaethedig a phresennol" - ar ochr ogleddol cyffordd Heol y Gogledd.*
- *"Dim traffig trwodd ar ffurf cerbydau ar Ffordd y Brenin" - rhwng Boulevard De Nantes a Heol y Brodyr Llwydion.*
- *"Mae boulevard newydd wedi'i dirlunio yn cael ei ddatblygu (yn Ffordd y Brenin). Ymgynghorir ar hyn ar wahân yn ddiweddarach a gall fod yn amodol ar ganiatâd cynllunio".*
- *"Llenwi'r danffordd (o dan Boulevard De Nantes) a gosod croesfan un-lefel newydd".*
- *"Ardal wedi'i thirlunio (ger Neuadd y Ddinas)".*
- *"Beicffordd barhaol ar ochr ogleddol y ffordd (ar hyd Boulevard De Nantes)".*

- *"Gwelliannau cyffordd (wrth gyffordd Plas y Parc)."*

Mae'r testun o dan y darn o'r cynllun cysyniad yn darllen: *"Mae'r feicffordd yn cael ei chynnig ar hyd ochr ogleddol Boulevard De Nantes a bydd yn clymu i mewn gyda Heol y Gogledd. Bydd cysylltiadau'n cael eu gwneud gyda seilwaith beicio arfaethedig a phresennol ar Heol y Gogledd a bydd angen gwneud newidiadau i gyffyrdd allweddol ac ailddyrannu lonydd traffig.*

*Bydd Ffordd y Brenin yn cael ei chau i draffig trwodd, gan greu man cyhoeddus newydd (gweler tudalen 11). Bydd croesfan twcan yn cael ei darparu ar draws Boulevard De Nantes i gysylltu Canol y Ddinas â'r Ganolfan Ddinesig gyda thirlunio ac ardal parcio beiciau.  Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid amrywiol fel CADW a byddwn yn cynnal ymchwiliadau ecolegol a threftadaeth priodol i lywio'r dyluniad."*

Mewn ffont italig ar waelod y sleid mae: *"Trefn ddangosol y tirlunio".*

## **Sleid 6**
Is-deitl: *"Dylunio cysyniad - Stuttgarter Strasse / Plas Dumfries"*

Dangosir darn o'r cynllun dylunio cysyniad o'r adran rhwng cyffordd Plas y Parc, ar hyd Stuttgarter Strasse a Phlas Dumfries i'r gyffordd â Lôn Windsor. Dangosir gwahanol labeli ar y cynllun yn disgrifio'r canlynol:

- *"Gwelliannau cyffordd i hwyluso'r feicffordd a darparu cyfleusterau ychwanegol i gerddwyr" – cyffordd Plas y Parc.*
- *"Cau cyffordd Cilgant Eglwys Andreas i draffig trwodd ar ffurf cerbydau" – Ochr ogleddol Stuttgarter Strasse gyda Chilgant Eglwys Andreas.*
- *"Lôn fysiau" – ar ochr ddeheuol Stuttgarter Strasse.*
- *"Beicffordd barhaol ar ochr ogleddol Stuttgarter Strasse".*
- *"Cyffordd traffig a reolir gan signalau (allanfa yn unig i Blas Dumfries)" – o Lôn Eglwys Andreas i Stuttgarter Strasse.*
- *"Beicffordd barhaol ar ochr ddwyreiniol Plas Dumfries.*
- *Adfer safleoedd bws cwrbyn dyrchafedig safonol – ar Blas Dumfries.*
- *"Lôn fysiau" - ar ochr orllewinol Plas Dumfries".*
- *"Ffordd osgoi i feiciau o gwmpas ardal lwytho" – ar ochr ddwyreiniol Plas Dumfries gyferbyn â Lôn Windsor.*

Mae'r testun o dan y darn o'r cynllun cysyniad yn darllen: *"Bydd y feicffordd yn aros ar ochr ogleddol Stuttgarter Strasse i mewn i Blas Dumfries. Bydd cysylltiadau'n cael eu gwneud gyda Beicffordd 1 gyda Chilgant Eglwys Andreas yn cael ei chau i draffig drwodd. Bydd Lôn Eglwys Andreas yn cynnwys signalau i leihau gwrthdaro rhwng cerbydau a beiciau.  Bydd angen newid cyffyrdd allweddol a dyrannu lonydd traffig. Rydym wedi gweithio gyda'n rhanddeiliaid hygyrchedd a gweithredwyr bysiau i leoli a dylunio safleoedd bws, gan gynnwys gwaredu'r safleoedd i fysiau sy'n gadael y ddinas ger y maes parcio."*

## **Sleid 7**
Is-deitl: *"Dylunio cysyniad - Rhodfa'r Orsaf / Heol Casnewydd"*

Dangosir darn o’r cynllun dylunio cysyniad o’r adran ar hyd Plas Dumfries, rhwng cyffordd Rhodfa’r Orsaf, ar hyd Heol Casnewydd i'r gyffordd â Phlas Fitzalan. Dangosir gwahanol labeli ar y cynllun yn disgrifio'r canlynol:

- *"Beicffordd barhaol ar ochr ddwyreiniol Plas Dumfries gydag ardal lwytho newydd".*
- *"Gwaredu safleoedd bws diangen" – ar ochr ddwyreiniol Plas Dumfries.*
- *"Gwelliannau cyffordd i hwyluso’r feicffordd a chlymu i mewn i Rodfa’r Orsaf" – wrth gyffordd Heol Casnewydd / Rhodfa'r Orsaf / Plas Dumfries.*
- *"Lôn fysiau" - ar ddwy ochr Heol Casnewydd.*
- *"Cadw’r mesur ymadael yn unig i Heol Casnewydd" - o Heol Fitzalan.*
- *"Tirlunio wrth y gyffordd" - gyda Heol Fitzalan.*
- *"Adfer safleoedd bws cwrbyn dyrchafedig safonol" - ar ochr ddeheuol Heol Casnewydd.*
- *“Beicffordd barhaol ar ochr ogleddol Heol Casnewydd”.*
- *"Gwelliannau cyffordd i hwyluso’r feicffordd" - wrth gyffordd Plas Fitzalan gyda Heol Casnewydd.*

Mae'r testun o dan y cynllun cysyniad yn darllen: *“Bydd cysylltiad yn cael ei wneud â’r newidiadau diweddar i Rodfa’r Orsaf. Mae lle i gysylltu Beicffordd 2 â Llwybr Beicio’r Rhath yn y dyfodol. Bydd angen gwneud newidiadau i gyffyrdd allweddol a dyrannu lonydd traffig, gyda gwell seilwaith bysiau a mesurau blaenoriaeth bysiau. Mae gwaith modelu yn cael ei wneud fel rhan o'r gwaith opsiynau i lywio'r dyluniad a'r penderfyniadau allweddol."*

## Sleid 8

Is-deitl: *“Dylunio cysyniad - Llwyn y Gorllewin / Heol Casnewydd / Heol y Plwca”*

Dangosir darn o’r cynllun dylunio cysyniad o’r adran rhwng Plas Fitzalan i’r gyffordd â Heol Glossop.  Dangosir gwahanol labeli ar y cynllun yn disgrifio'r canlynol:

- *"Safle bws arwyneb a rennir (opsiwn ynys dan ystyriaeth)" – Ochr ogleddol Heol Casnewydd, rhwng Llwyn y Gorllewin a Llwyn y Dwyrain.*
- *"Hidlydd moddol" - wrth gyffordd Llwyn y Dwyrain a chyffordd Plas Howard.*
- *“Cau Llwyn y Dwyrain / Plas Howard i draffig trwodd ar ffurf cerbydau”.*
- *“Beicffordd barhaol” - ar ochr ogleddol Heol Casnewydd.*
- *"Lonydd bysiau" - ar ddwy ochr Heol Casnewydd.*
- *"Croesfan twcan ar wahân gyda ramp" - rhwng Llwyn y Dwyrain a Phlas Howard.*
- *"Ynys safle bws" - ar ochr ogleddol Heol Casnewydd, rhwng Llwyn y Dwyrain a Heol y Plwca.*
- *“Lôn fysiau’n cael ei datblygu ar Heol y Plwca (tua’r de)”.*
- *"Adfer safleoedd bws cwrbyn dyrchafedig safonol" - ar ochr ddeheuol Heol Casnewydd.*
- *"Gwelliannau cyffordd i hwyluso beicffyrdd" - wrth gyffordd Heol Glossop gyda Heol Casnewydd.*

Mae'r testun o dan y cynllun cysyniad yn darllen: *“Bydd Plas Howard a Llwyn y Dwyrain yn cael eu cau i draffig trwodd ar ffurf cerbydau gyda chroesfan twcan*

*newydd a hidlwyr moddol. Bydd y safleoedd bws ar ochr ogleddol Heol Casnewydd yn ymgorffori ynysoedd safle bws lle bo hynny'n bosibl. Mae lôn fysiau'n cael ei datblygu ar Heol y Plwca (ymgynghorir ar hyn ar wahân).*

*Fel rhan o'r gwersi a ddysgwyd ac o'n hymgysylltiad â'n rhanddeiliaid, rydym yn ceisio gwella ein seilwaith yn barhaus.  Dangosir enghraifft o rai o'r gwahanol fathau o safleoedd bws rydym yn eu cynnig, yn ogystal â hidlydd moddol rydym wedi'i weithredu yn ddiweddar yn y ddinas, ar ochr dde'r dudalen hon."*

I'r ochr dde o'r cynllun cysyniad a'r testun, mae tri ffotograff mewn rhes, o'r top i'r gwaelod. Mae'r lluniau hyn yn dangos: 1.  Ynys safle bws ar Stryd Wood, 2. Safle bws wyneb a rennir ar Heol Allensbank, a 3. Hidlydd moddol ar Deras Cathays.

## Sleid 9

Is-deitl: *"Dylunio cysyniad - Heol y Plwca / Heol Casnewydd / Heol y Pedair Llwyfen"*

Dangosir darn o'r cynllun dylunio cysyniad o'r adran rhwng Heol Glossop i gyffordd Heol Casnewydd â Piercefield Place.  Dangosir gwahanol labeli ar y cynllun yn disgrifio'r canlynol:

- *"Gwelliannau cyffordd" - wrth gyffordd Heol Glossop gyda Heol Casnewydd.*
- *"Beicffordd barhaol" - ar ochr ogleddol Heol Casnewydd.*
- *"Lonydd bysiau" - ar ddwy ochr Heol Casnewydd.*
- *"Ynys safle bws" - ar Heol Casnewydd rhwng Heol y Plwca a Choedlan Wordsworth.*
- *"Troi i'r chwith i mewn a throi i'r chwith wrth adael yn unig yng Nghoedlan Wordsworth".*
- *"Adfer safleoedd bws cwrbyn dyrchafedig safonol ar ochr ddeheuol Heol Casnewydd".*
- *"Cau Piercefield Place i draffig trwodd ar ffurf cerbydau" - gyda hidlydd moddol wedi'i ddangos.*
- *"Beicffordd i barhau i Heol y Pedair Llwyfen (Cam 2)" – mae Cam 2 ar Heol y Pedair Llwyfen wedi'i gysgodi.*

Mae'r testun o dan y cynllun cysyniad yn darllen: *"Mae seilwaith bysiau a mesurau blaenoriaeth bysiau yn cael eu hystyried ar lefel rhwydwaith. Mae system dolen, lle bydd bysiau sy'n teithio i mewn i'r ddinas yn defnyddio Heol Lydan a bysiau sy'n teithio allan o'r ddinas yn defnyddio Heol Casnewydd, yn cael ei datblygu. Bydd hyn yn golygu newid y ffordd y mae Heol Lydan a Stryd Clifton yn gweithredu yn nhermau trafnidiaeth. Ymgynghorir ar wybodaeth am newidiadau i Heol Lydan yn y dyfodol fel rhan o Gam 2. Bydd yn cynnwys sut y gall traffig lleol a thraffig trwodd cyffredinol symud o fewn yr ardal.*

*Bydd Piercefield Place yn cael ei chau i draffig trwodd ar ffurf cerbydau a bydd hidlydd moddol yn cael ei ddarparu. Dim ond symudiadau i'r chwith i mewn a'r chwith wrth adael fydd yn cael eu caniatáu yng nghyffordd Coedlan Wordsworth i wella diogelwch yn y lleoliad hwn. Fel rhan o'r cynnig hwn, byddwn yn adolygu Oxford Lane.  Mae newidiadau i signalau traffig Heol Glossop / Teras Moira hefyd yn cael eu hystyried i wella'r rhwydwaith priffyrdd."*

**Sleid 10**
Is-deitl: *"Gweithredu – dull 'Graddol'"*

Mae'r testun ar ochr chwith y sleid yn darllen: *"Dull graddol - Rydym am sicrhau ein bod yn cyflawni pob cam neu ran o'r cynllun ar yr amser gorau. Bydd hyn yn helpu i leihau'r effaith sy'n gysylltiedig â chynlluniau priffordd eraill ar y safle yn ardal canol y ddinas, neu lle mae angen i fesurau eraill fod ar waith i wneud i'r cynllun weithio i'w lawn botensial.*

*Mae'r cynllun i'r dde yn dangos 'adran' Cam 1 (Heol Casnewydd) yr ydym yn edrych i'w chyflawni ar ddyddiad diweddarach. Mae'r wybodaeth flaenorol yn y ddogfen hon yn rhoi cipolwg ar edrychiad y cynllun terfynol llawn."*

I'r dde o'r adran gyntaf o destun mae cynllun lefel uchel o gam 1, gyda llinell goch yn dangos ei aliniad â'r llwybr ar hyd Coridor Heol Casnewydd o Heol y Gogledd, ar hyd Boulevard De Nantes i ychydig heibio i gyffordd Heol Casnewydd gyda Llwyn y Gorllewin. Yna mae'r llinell goch ar hyd Heol Casnewydd yn newid i ardal sydd wedi'i huwcholeuo'n borffor o ychydig i'r dwyrain o gyffordd Llwyn y Gorllewin i'r gyffordd â Piercefield Place. Ar ôl yr ardal hon, dangosir dechrau aliniad llwybr cam 2 mewn gwyrdd (Heol Lydan a rhan baralel Heol Casnewydd).

Mae'r labeli yn darllen o'r chwith i'r dde: "Newidiadau arfaethedig i Stryd y Castell", "Gwaith Coridor Heol Casnewydd (Cam 1)", "Bydd y rhan yma o Gam 1 yn cael ei rhoi ar waith yn ddiweddarach", a "Newidiadau arfaethedig i Heol y Plwca". Mae'r Allwedd yn darllen: *"Cam 1" - llinell solet goch, "Cam 2" - llinell solet werdd, a "Gweithredir yn ddiweddarach" – siâp petryal porffor gyda ffin borffor doredig.*

Mae'r testun o dan y cynllun lefel uchel yn darllen*: "Rydym yn bwriadu dechrau gyda Cham 1, naill ai yn ystod neu ar ôl gwelliannau arfaethedig Stryd y Castell, yn amodol ar gydlynu'r gwaith. Bydd yr adran rhwng Llwyn y Gorllewin a Cham 2 yn cael ei chyflwyno yn ddiweddarach. Rydym yn disgwyl y bydd hyn yn cael ei wneud ar ôl cwblhau Cam 2, gan y bydd cynlluniau priffordd eraill, fel Sgwâr Callaghan a'r Cei Canolog, yn effeithio ar y rhwydwaith yn ystod y gwaith adeiladu.*

*O'n gwaith modelu, bydd y newidiadau rhwng Llwyn y Gorllewin ac Orbit Street yn cyflawni gwelliannau da o ran amser teithio ac ansawdd gwasanaeth ar gyfer gwasanaeth bysiau, ond effeithir ar draffig cyffredinol. Felly bydd dull graddol yn lleihau'r effaith."*

**Sleid 11**
Is-deitl: *"Ffordd y Brenin"*

Mae'r testun ar ochr dde'r sleid yn darllen: "Fel rhan o'r cynllun hwn, rydym yn cynnig cau a gwaredu tanffordd Boulevard De Nantes a'i disodli gyda chyfleuster croesi 'un-lefel' i hwyluso'r gwaith o ddatblygu'r feicffordd barhaol ar hyd y coridor. Wedi'i ddatblygu'n wreiddiol fel rhan o gynigion aer glân y ddinas, bydd y cynnig hwn yn gwella'r cysylltiad rhwng Canol y Ddinas a'r Ganolfan Ddinesig ac yn rhoi cyfle cyffrous i ddatgloi ardal agored gyhoeddus sylweddol ei maint.

*Bydd cael gwared ar y danffordd yn darparu llinell weld glir rhwng Neuadd y Ddinas a Heol Tŷ'r Brodyr, a gallai'r gofod gael ei droi'n ardal gymunedol a allai wella ansawdd bywyd i rai, denu twristiaeth, gwella mynediad i Erddi Tŷ'r Brodyr a chael ei defnyddio fel gofod digwyddiadau tymhorol newydd.*

*Er gwybodaeth, mae croesfan un-lefel yn groesfan i gerddwyr neu groesfan a rennir sydd ar yr un lefel â'r lôn gerbydau."*

Wrth ymyl y testun, mae llun o'r awyr yn dangos cyffordd Heol Casnewydd gyda Ffordd y Brenin. Mae llinell goch yn nodi *"Graddfa fras y gwaith ymchwilio ardal gyhoeddus",* sef hefyd y label yn y llun. Mae'r llinell goch hefyd yn cynnwys yr ardal i'r gogledd o'r danffordd, y danffordd a'r ardal rhwng Boulevard De Nantes a Heol y Brodyr Llwydion. Dangosir y ddelwedd Google at ddibenion hawlfraint.

O dan y ddelwedd mae testun pellach sy'n darllen: *"Bydd gwaredu'r danffordd a'i waliau strwythurol yn cynnig gwell gwelededd a all atal y tebygolrwydd o droseddu a gwneud i ddefnyddwyr deimlo'n fwy diogel trwy atal loetran ac ymddygiadau gwrthgymdeithasol eraill. Bydd hefyd yn gwella hygyrchedd i lawer o unigolion trwy gyflwyno croesfannau un-lefel a fydd yn elwa o amseryddion sy'n cynorthwyo defnyddwyr.*

*Ar hyn o bryd rydym yn datblygu'r gofod a'r broses gyfreithiol sy'n gysylltiedig â chau'r danffordd. Gallai'r elfen hon o'r cynllun fod yn amodol ar ganiatâd cynllunio ac efallai na fydd ei chyflawni'n alinio â'r coridor o reidrwydd."*

Wrth ymyl y testun, mae pedair delwedd fach o ofod Ffordd y Brenin. 1. yn wynebu Gerddi Tŷ'r Brodyr, 2. yn wynebu'r llwybr sy'n rhedeg yn gyfochrog â chamlas gyflenwi'r dociau i'r dwyrain o'r gofod, 3. yn wynebu rhif un Ffordd y Brenin a 4. yn wynebu Gwesty'r Hilton.

## Sleid 12

Is-deitl: *"Gwybodaeth parcio – Llwybr Ehangach"*

Mae'r testun ar ochr dde'r sleid yn darllen: "Parcio

*Rydym yn datblygu'r ddarpariaeth parcio ar draws y ddinas a bydd y cynllun hwn yn rhan o'r cynllun cynhwysfawr hwnnw. Mae'r darpariaethau'n cynnwys mynd i'r afael â pharcio ar y stryd gan gymudwyr, a all rwystro llif traffig a chreu anawsterau i rai trigolion neu fusnesau lleol.*

*Mewn rhai ardaloedd ar hyd y llwybr, bydd Parthau Parcio yn cael eu cyflwyno.*

*Mae'r cynllun i'r chwith yn cyflwyno gwahanol barthau parcio. Mae'r rhain yn ardaloedd lle bydd parcio'n cael ei reoli ar adegau penodol a bydd parcio ar y stryd yn cael ei reoli gyda mannau parcio. Bydd y rhain yn cyd-fynd â chyfyngiadau parcio cyffredinol eraill. Mae'r coridor trafnidiaeth hwn yn mynd drwy barth parcio wedi ei reoli arfaethedig."*

Dangosir cynllun ar ochr chwith y sleid, yn dangos y barth parcio wedi ei reoli arfaethedig. Dangosir y llwybr arfaethedig ar hyd Boulevard De Nantes, Plas

Dumfries a Heol Casnewydd a Heol Lydan fel llinell doredig. Mae'r un wybodaeth hon wedi'i dangos yn yr allwedd.

Mae blwch testun o dan y cynllun yn darllen: *"Mae gwybodaeth am barcio ar gael ar wefan y Cyngor, Parcio (caerdydd.gov.uk). Noder: Mae graddfa'r parth yn ddangosol"*

Darperir testun pellach ar ochr dde gwaelod y sleid sy'n darllen: *"Llwybr Coch - Er mwyn helpu i gadw traffig i lifo a lleihau tagfeydd ar Goridor Heol Casnewydd, rydym yn archwilio'r opsiwn o Lwybr Coch. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu fel rhan o becyn Gorchymyn Rheoleiddio Traffig (GRhT) y cynllun."* I'r dde o'r testun mae llun bach sy'n dangos arwydd traffig llwybr coch. O dan hwn mae llun darluniadol o linellau coch dwbl ar ffordd wrth ymyl cwrbyn.

## Sleid 13

Is-deitl: *"Polisi a Llwybr Ehangach"*

Mae'r testun ar ochr chwith y sleid yn darllen: *"Cysylltiadau Newydd*

*Nod y cynllun ehangach yw cysylltu cymunedau â phrif gyrchfannau ledled y ddinas. Mae hyn yn cynnwys Canol y Ddinas ac yn darparu mynediad teithio llesol diogel i ac o safleoedd cyflogaeth, ardaloedd preswyl, canolfannau addysg a chyrchfannau i ymwelwyr yn y Ddinas. Bydd cyfleoedd hefyd ar gael i gysylltu â llwybrau beicio eraill fel Llwybr Beicio'r Rhath a gwella seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus hefyd fel rhan o'r prosiect.*

*Llwybr ehangach*

*Bydd Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd i Gasnewydd yn cynnig cysylltiad teithio llesol allweddol o Ddwyrain Caerdydd a thu hwnt i ffin y Sir. Bydd y cynllun yn cael ei gyflawni yn unol â'r camau canlynol:*

- *Cam 1 - Ardal Canol y Ddinas (cyflawnir mewn dau gam)*
- *Cam 2 - Ardal Heol Lydan*
- *Cam 3 - Heol Lydan i Ffordd y De*
- *Cam 4 - Ffordd y De i Fryn Hyfryd*
- *Cam 5 - Bryn Hyfryd i Rodfa'r Gypreswydden*
- *Cam 6 - Rhodfa'r Gypreswydden a Chyswllt Casnewydd.*

*Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am y llwybr ehangach yn www.caerdydd.gov.uk/LlwybrEhangachHeolCasnewydd neu drwy sganio'r Cod QR."*

Mae'r testun ar ochr dde'r sleid yn darllen: *"Teithio Llesol ac Iechyd*

*Argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWTC) yw i wneud gwelliannau i opsiynau teithio cynaliadwy a chynyddu nifer y teithiau a wneir drwy deithio llesol (cerdded a beicio). Mae cynlluniau Papur Gwyn y Cyngor yn cynnwys dyheadau am rwydwaith beicio hollol ar wahân, sy'n cyfrannu at ddiogelwch a*

*chyfleustra defnyddwyr ffordd.* Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at les meddyliol a chorfforol yn ogystal â lleihau tagfeydd ar y rhwydwaith."

Ar ochr dde'r dudalen o dan y testun mae cod QR mewn blwch testun sy'n darllen: "Mae gwybodaeth am y llwybr ehangach ar gael ar *wefan y Cyngor*".

O dan y blwch testun ar ochr dde'r sleid mae darlun o Gastell Caerdydd, stadiwm a phobl yn cerdded, rhedeg, eistedd a beicio.

## Sleid 14

Is-deitl: *"Cwestiynau Cyffredin"*

Mae'r uchod hefyd yn cael ei ailadrodd ar sleidiau 14, 15 ac 16 lle mae'r Cwestiynau Cyffredin yn parhau.

Mae'r testun a ddangosir ar sleidiau 14, 15 ac 16 ar ffurf rhestr gyda chwestiwn mewn testun bras ac yna'r ateb. Mae'r testun cwestiynau ac atebion ar sleid 14 yn darllen:

*"Beth ydych chi'n ymgynghori arno'n union? Rydym yn ymgynghori ar gynigion bysiau a beicffordd ar gyfer Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd i Gasnewydd a Beicffordd 2. Mae hyn yn cynnwys mesurau blaenoriaeth bysiau a beicffordd barhaol sy'n disodli'r llwybr beicio dros dro presennol o Heol y Gogledd, ar hyd Boulevard De Nantes a Heol Casnewydd i gyffordd Heol Casnewydd / Heol y Pedair Llwyfen. Bydd y cynllun yn cael ei weithredu a'i ddatblygu mewn camau. Er mwyn lleihau'r effaith, bydd rhan o Gam 1 yn cael ei gweithredu yn ddiweddarach (gweler Tudalen 10)."*

*"Dydw i ddim wedi gweld y prosiect yn cael ei hysbysebu o'r blaen. Oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer y prosiect? Ymgynghorwyd ar y llwybr yn flaenorol fel rhan o Bapur Gwyn Trafnidiaeth Caerdydd a datblygiad y Map Rhwydwaith Teithio Llesol.* Ar gyfer y rhan fwyaf o'r gwaith a wneir o fewn y briffordd fabwysiedig, nid oes angen caniatâd cynllunio. Mae gan y cyngor (Awdurdod Lleol) 'hawliau datblygu a ganiateir' (o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995), sy'n ddyfarniad tybiedig o ganiatâd cynllunio gan Orchymyn Llywodraeth Cymru; i ymgymryd ag ystod o waith ar dir sy'n perthyn iddo neu a gynhelir ganddo at ddibenion unrhyw swyddogaeth a arferir ganddo neu mewn cysylltiad â gweithredu unrhyw wasanaeth cyhoeddus a weinyddir ganddo. Fel rhan o ddull arfer gorau, cynhelir ymgysylltiad ag adrannau mewnol o fewn y cyngor, ein rhanddeiliaid, Cynghorwyr Ward lleol a'r cyhoedd. Mae'r ddogfen hon yn ffurfio rhan o'n proses ymgysylltu arfer gorau."

*"Mae ardaloedd cadwraeth yng nghanol y ddinas, pam nad oes angen caniatâd cynllunio arnoch? Fel uchod, mae gan y Cyngor hawliau datblygu a ganiateir, fodd bynnag, fel rhan o ddatblygiad y cynllun, rydym yn gweithredu arfer gorau ac yn cysylltu â'n rhanddeiliaid mewnol ac allanol amrywiol. Bydd yr ymgysylltiad hwn yn golygu ein bod yn cymryd camau priodol i leihau unrhyw effaith bosibl y bydd y cynllun yn ei chael ar y safleoedd hanesyddol neu'r mannau gwyrdd o fewn ardal cynnig y cynllun."*

*“Oni ddylai fod yn rhaid i chi gynnal asesiadau effaith amgylcheddol, treftadaeth a thrafnidiaeth? Gan nad oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer y prosiect, nid oes angen rhai asesiadau cyfreithiol. Fodd bynnag, rydym wedi cynnal proses sgrinio ecolegol, asesiad o’r effaith ar goed ac amaethyddiaeth, Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, arfarniadau treftadaeth a gwaith helaeth ar opsiynau i lywio'r cynnig dylunio."*

*"Rydw i am wrthwynebu'r cynigion; sut alla i wneud hyn? Er ein bod yn gofyn am farn y cyhoedd a'n rhanddeiliaid, yn gyffredinol, nid oes angen i ni gynnal ymgynghoriad nac ymgysylltu ar lawer o'n cynigion yn ôl y gyfraith. Er nad diben yr ymarfer ymgysylltu hwn yw ceisio barn ar aliniad y cynllun, na gweithredu fel refferendwm, rydym am gael eich barn ar y cynigion i helpu i lywio a chyfoethogi'r dyluniad."*

## **Sleid 15**

Is-deitl: “Cwestiynau Cyffredin (Parhad)”

Mae testun a thema sleid 14 yn parhau ar y sleid hon, sleid 15, ac yn darllen:

*“Pam ydych chi'n cynnig mwy o gyfleusterau beicio? Mae'n bwysig gwella ansawdd yr aer yng Nghaerdydd cyn gynted â phosibl. I gefnogi hyn, mae'n bwysig annog teithio llesol a chynaliadwy ledled Caerdydd. Mae gwella beicffyrdd, safleoedd bws a llwybrau bws yn hanfodol i’r cynllun hwn. Mae gwybodaeth ar gael am gynigion ehangach y llwybr hwn, ac ymgynghorir ar y camau nesaf pan fydd y cynigion yn barod yn y dyfodol."*

*“Pam ydych chi'n symud y feicffordd bresennol i ochr arall y ffordd? Rhoddwyd y feicffordd dros dro bresennol ar waith o dan gynllun Adfer ar ôl Covid dros dro. Fel rhan o'n gwaith monitro ac asesu ac o gymhwyso gwersi a ddysgwyd, rydym wedi edrych ar wahanol opsiynau a modelu traffig. Rydym wedi ystyried sawl opsiwn a, rhwng popeth, yr opsiwn a ddewiswyd sy’n cynnig y nifer fwyaf o fanteision ar gyfer y llwybr.”*

*“Pa gyfleusterau beicio sydd wedi'u cynllunio fel rhan o'r prosiect hwn? Cynigir llwybr beicio ar wahân newydd ar hyd y llwybr gyda mannau croesi a pharcio i feiciau lle bo hynny'n bosibl. Mae hefyd yn gyfle i gysylltu llwybrau beicio presennol neu arfaethedig eraill."*

*“Ydw i'n gallu cael mynediad i Blas Howard neu Lwyn y Dwyrain o hyd? Dim ond beicwyr a cherddwyr fydd yn gallu cael mynediad i'r ffyrdd hyn o Heol Casnewydd gan y byddant yn cael eu cau i gerbydau ar y pwynt hwn. Bydd traffig cerbydau ond yn gallu cael mynediad i Blas Howard o Lôn Heol Casnewydd a Gerddi Howard, a Llwyn y Dwyrain o’r Parêd."*

*"Ydw i’n gallu cael mynediad i Gilgant Eglwys Andreas o hyd? Dim ond beicwyr a cherddwyr fydd yn gallu cael mynediad i'r ffordd hon o Stuttgarter Strasse gan y bydd y ffordd hon yn cael ei chau i gerbydau ar y pwynt hwn. Bydd traffig cerbydau ond yn gallu cael mynediad i’r ffordd hon o Blas Eglwys Andreas.”*

*"A fydd Beicffordd 2 yn cysylltu â Llwybr Beicio Parc y Rhath? Bydd, yn y pen draw. Yn yr un modd â Beicffordd 2, mae'r cynllun yn cael ei ddatblygu gan ddefnyddio*

*gwaith opsiynau a modelu traffig. Byddwn yn ceisio diogelu'r cynllun hwn at y dyfodol er mwyn sicrhau y gall llwybrau eraill gysylltu yn y dyfodol."*

*"Beth am draffig a ddadleolir gan y gwaharddiad ar symudiadau troi neu'r newidiadau ar Heol Casnewydd? Gan ddefnyddio modelu traffig a meddalwedd micro-efelychu, rydym wedi ystyried nifer o oblygiadau a, rhwng popeth, mae'r opsiwn a ddewiswyd yn darparu manteision perfformiad ar hyd y llwybr, wrth ystyried y cynllun newydd. Mae'r mesurau hyn yn rhan o gynigion ehangach sydd wedi'u hanelu at greu dulliau teithio mwy cynaliadwy neu lesol. Byddwn yn adolygu'r gwaharddiad troi i'r dde i Goedlan Wordsworth fel rhan o Gam 1B. Gall hyn gynnwys adolygu gweithrediad Oxford Lane."*

## **Sleid 16**

Is-deitl: "Cwestiynau Cyffredin (Parhad)"

Mae testun a thema sleidiau 14 a 15 yn parhau ar y sleid hon, sleid 16, ac yn darllen:

"Beth fydd yn digwydd i'r mannau parcio i gerbydau yn yr ardal neu fel rhan o gynlluniau'r llwybr ehangach? Mewn gwahanol ardaloedd yn y ddinas, mae'r Cyngor wedi bod yn cyflwyno newidiadau i rai ardaloedd ar sail parthau. Mae'r cynlluniau parcio hyn yn rhoi mwy o fannau parcio i breswylwyr a pharcio aros cyfyngedig rheoleiddiedig i leihau nifer y cymudwyr sy'n parcio a gwella cyfleoedd parcio i fusnesau a thrigolion. Nid oes unrhyw gynlluniau penodol fel rhan o'r ymgysylltiad penodol hwn, gan nad oes llawer o barcio ar gael ar hyd Cam 1. Bydd angen Gorchmynion Rheoli Traffig newydd neu ddiwygiedig fel rhan o'r newidiadau arfaethedig. Mae'n bosib y bydd rhai parthau parcio'n cael eu cyflwyno fel rhan o'r beicffyrdd sy'n cael eu datblygu neu ar wahân er mwyn mynd i'r afael â materion lleol. Gall y rhain hefyd gynnwys parcio Talu ac Aros. Er mwyn helpu i gadw traffig i lifo a lleihau tagfeydd ar Goridor Heol Casnewydd, rydym yn archwilio'r opsiwn o Lwybr Coch."

"A fydd rhaid i mi dalu i barcio? Lle bydd parthau parcio yn cael eu cyflwyno, cyflwynir cyfuniad o drwyddedau parcio i breswylwyr yn unig, aros cyfyngedig a pharcio talu ac aros. Bydd cyfle i barcio am ddim, ond bydd hyn am gyfnod cyfyngedig. Mae mwy o wybodaeth am gynlluniau trwyddedau a thalu ac aros ar gael ar wefan y Cyngor."

"Beth am draffig yn teithio o amgylch yr ardal a'r rhwydwaith? Bydd newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i Ganol y Ddinas a'r Ddinas gyfan yn y dyfodol, yn enwedig o ran hyrwyddo mesurau teithio llesol a chynaliadwy. Yn rhan o'n gwaith asesu, byddwn yn edrych ar ba fesurau rheoli traffig eraill y dylem eu cynnwys, megis mwy o gyfleusterau i gerddwyr a beicwyr, blaenoriaeth i fysus a Choridorau Clyfar i reoli llif traffig. Mae mwy o wybodaeth am ein cynlluniau presennol ar wefan y Cyngor ac ym Mhapur Gwyn Trafnidiaeth Caerdydd. Ewch i: www.caerdydd.gov.uk neu Bapur Gwyn Trafnidiaeth (caerdydd.gov.uk)"

"Beth yw Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru? Sefydlwyd Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWTC), dan arweiniad yr Arglwydd Burns, yn 2019 i ystyried y problemau a'r cyfleoedd ar gyfer mynd i'r afael â thagfeydd cerbydau ar draffordd yr M4 yn Ne-ddwyrain Cymru. Canfu'r Comisiwn nad oes gan

lawer o bobl yn y rhanbarth ddewisiadau eraill o ran trafnidiaeth heblaw'r draffordd ac nid yw'r rhwydweithiau rheilffordd, bws, beicio a cherdded presennol yn gwasanaethu'r ystod o deithiau y mae pobl yn eu gwneud. Mae'r Comisiwn yn argymell 'Rhwydwaith o Ddewisiadau Eraill' i wella tagfeydd yr M4 mewn modd cynaliadwy. Gellir darllen yr adroddiad argymhellion terfynol YMA. Mae canfyddiadau SEWTC wedi cael eu galw'n 'argymhellion Burns' sy'n cynnwys gwella'r coridor teithio llesol rhwng Caerdydd a Chasnewydd. Mae holl argymhellion SEWTC yn cael eu datblygu gan yr Uned Cyflawni Burns o fewn Trafnidiaeth Cymru."

"Sut alla i roi adborth? Ar y dudalen ganlynol, mae cyfarwyddiadau ar sut i ymateb."

**Sleid 17**
Is-deitl: "Sut i Ymateb"

Mae'r testun yng nghanol y sleid yn darllen:

*"Ymatebwch i'r ymgysylltiad hwn gan ddefnyddio'r ffurflen arolwg: YMA neu copïwch a gludwch yr URL canlynol: https://wh1.snapsurveys.*
*Bydd hyn yn eich galluogi i wneud sylwadau ffurfiol mewn ymateb i'r ymgysylltiad hwn.*

*Fel arall, e-bostiwch TimyRhaglenDrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk*

*neu ysgrifennwch at Dîm y Rhaglen Drafnidiaeth, Ystafell 301 Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW.*

*Bydd yr ymgysylltiad hwn ar agor tan 17 Awst 2025.*

*Sylwer mai dim ond adborth ar gyfer Cam 1 yr ydym yn ei dderbyn - ymgynghorir ar gamau eraill yn y dyfodol*

*Caiff yr holl ymatebion eu hadolygu a'u defnyddio i helpu i ysgrifennu'r Adroddiad Ymgysylltu - un o'r dulliau a ddefnyddir i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer y cynllun. Gellir newid y cynllun enghreifftiol a ddangosir o ganlyniad i'r broses ddylunio fanwl, neu oherwydd adborth arall a geir yn ystod y broses ymgysylltu neu ddylunio. Bydd copi o'r dyluniad manwl ar gael ar wefan y Cyngor pan fydd wedi'i gwblhau ochr yn ochr â'r deunydd ymgysylltu a'r adroddiad.*

*Bydd ymatebion i gwestiynau am y cynnig ar gael yn yr Adroddiad Ymgysylltu a fydd ar-lein pan fydd ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/prosiectautrafnidiaeth gan ddewis y ddolen 'ymgyngoriadau blaenorol' a dewis teitl y cynllun. Yn dilyn cyhoeddi'r Adroddiad Ymgysylltu, caiff y prosiect ei gynllunio'n fanwl a'i roi ar waith, yn amodol ar gymeradwyaeth ac arian.*

*Dim ond adborth a chwestiynau sy'n ymwneud â'r prosiect hwn (Cam 1) a gaiff eu hystyried neu y gweithredir arnynt. Os oes gennych unrhyw adborth ar wasanaethau eraill y Cyngor, ewch i www.caerdydd.gov.uk*

*Hefyd, ni fyddwn yn gallu ymateb i ymatebion unigol – ond bydd yr holl ymatebion yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Ymgysylltu a fydd ar gael yn fuan wedi dyddiad cau'r Ymgysylltiad. Ni fydd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei rhannu."*

**Mae'r sleidiau'n gorffen yma.**